

# YR ENETH GA'DD EI GWRTHOD.

Mesur—Bugeilio'r Gwenith Gwŷn.

Ar lan 'rhen afon Ddyfrdwy ddofn
  Eisteddai glân forwynig,
Gan ddystaw sisial wrthi ei hun—
  Gadawyd fi yn unig;
Heb gâr na chyfaill 'fewn y byd,
  Na chartref chwaith fyn'd iddo,
Drws tŷ fy nhad sydd wedi ei gloi,
  'Rwy'n wrthodedig yno.

Mae bys gwaradwydd ar fy ol
  Yn nodi fy ngwendidau,
A llanw 'mywyd wedi ei droi
  A'i gladdu dan y tonau;
Ar allor chwant aberthwyd fi,
  Do, collais fy morwyndod,
A dyna'r achos pa'm yr wyf
  Fi heno wedi 'ngwrthod.



OC 36229676

Ti frithyll bach sy'n chwareu'n llon
　Yn nyfroedd glân yr afon,
Mae genyt ti gyfeillion fyrdd,
　A noddfa rhag gelynion;
Cei fyw a marw o dan y dw'r,
　Heb undyn dy adnabod,
O! na chawn inau fel tydi—
　Gael marw ac yna darfod!

Ond 'hedeg mae fy meddwl prudd
　I fyd sydd eto i ddyfod,
A chofia dithau, fradwr tost,
　Rhaid iti fy nghyfarfod;
Ond meddwl am dy eiriau di,
　A byw, sydd imi'n ormod;
O! afon ddofn, derbynia fi,
　Caf angau yn dy waelod!

A boreu dranoeth cafwyd hi
　Yn nyfroedd oer yr afon,
A darn o bapyr yn ei llaw
　Ac arno yr ymadroddion—
"Gwnewch imi fedd mewn unig fan,
　Na chodwch faen na chyfnod
I nodi'r fan lle gorwedd llwch
　Yr eneth ga'dd ei gwrthod."

---